

IONAWR 2012

NEWYDDION

CCG

Cyfleoedd
i brentisiaid

Tudalen y plant

LLAIS
tenantiaid

Y diweddaraf am
SATC





Dilynwch ni ar
twitter

Mae CCG bellach ar Twitter,
dilynwch ni @CartrefiGwynedd



Neil Williams, Nia Parry ac Aled Griffiths

Sêr teledu yn depo Penrhyn

Galwodd y gyflwynwraig teledu adnabyddus Nia Parry heibio depo CCG yn Penrhyndeudraeth gyda chriw camera cyn y Nadolig i ffilmio Aled Griffiths a Neil Williams. Cytunodd y ddau i helpu gyda pharatoadau Ffair Nadolig Penygroes ar gyfer cyfres deledu newydd 'Mel a Nia' trwy adeiladu Groto Siôn Corn.

Roedd y gyfres ar y teledu yn yr wythnosau yn arwain at y Nadolig ac yn dangos sut y daeth y gymuned at ei gilydd i drefnu Ffair Nadolig ym mhentref Penygroes. Bu aelodau eraill o staff CCG a thenantiaid yn helpu efo'r trefniadau hefyd gyda deg warden ifanc o ysgolion yr ardal, dan ofal Wardeniaid CCG yn brysur ar y diwrnod yn twtio a chasglu sbwriel ar ôl i bawb fynd adref. Cytunodd sawl un o'n contractwyr i helpu hefyd trwy roi benthyg faniau a dynion i gario offer trwm ac roedd rhai o aelodau o gymdeithas tenantiaid Penygroes yn stiwardio yn ystod y ffair.

Hwyl yr Wyl yn Pwllheli

Daeth cannoedd o denantiaid at ei gilydd ddechrau Rhagfyr i fwynhau diwrnod o hwyl gyda CCG. Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr. Roedd yn gyfle i denantiaid gwrdd â staff Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) a phartneriaid i gael cyngor ar osgoi dyled ac arbed ynni dros y gaeaf.



Einir a Ffreuer o CCG gyda Casi o Bwllheli



Yr hogiau yn mwynhau ar y wal ddringo

Daeth Sali Mali a Sam Tân heibio i ddiddanu'r tenantiaid ieuengaf, ond y tro hwn galwodd un gwestai arbennig arall i'r ganolfan gydag anrhegion i'r plant. I ychwanegu at yr awyrgylch Nadoligaidd daeth Band Pres Llanrug i chwarae rhai o ffefrynau'r tymor.

Dywedodd Ffranccon Williams, Prif Weithredwr CCG: "Yn dilyn llwyddiant digwyddiadau tebyg yn Nolgellau a Bangor roedd hi'n braf cael croesawu ein tenantiaid eto ar ddechrau tymor y Nadolig. Roedd yr ymateb i'r digwyddiad yn wych. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn gobeithio ei wneud yn rheolaidd, mae'n gyfle i staff CCG a thenantiaid gwrdd mewn awyrgylch anffurfiol."

Unwaith eto daeth ein contractwyr a'n partneriaid i ymuno yn y digwyddiad gyda'r gwasanaeth tân, undeb credyd, *Citizens On-line*, NEA Cymru a Prime Cymru yn cynnig pob math o gyngor. Roedd Ambiwlans Awyr Cymru yno hefyd yn codi ymwybyddiaeth ac yn gwerthu nwyddau i godi arian at eu cronfa leol.

Diolch i'n contractwyr Apollo, Symphony a Lovell hefyd am gyfrannu gwobrau hael gan gynnwys beic, teledu a sawl hamper yn llawn bwyd tymhorol.



Lili of Flaenau Ffestiniog yn derbyn ei beic gan Apollo a CCG

Diweddariad SATC

Mae rhaglen welliannau Safon Ansawdd Tai Cymru wedi cyrraedd sawl ardal erbyn hyn gyda nifer o denantiaid wedi derbyn y gwaith. Dros y flwyddyn diwethaf rydym wedi gosod:

3,039 ffenestr ...

1,567 drws newydd ...

299 cegin fodern ...

287 ystafell ymolchi newydd!



Mae rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei gyflawni'n esmwyth, ond rydym wedi cael ychydig o broblemau cychwynnol mewn rhai ardaloedd. Rydym yn gweithio yn agos gyda'n contractwyr er mwyn sicrhau fod y materion hyn yn cael eu datrys ac i osgoi yr un camgymeriadau yn y dyfodol.

Mae diweddariad i'r amserlen waith wedi ei chynnwys gyda'r newyddlen hon yn amlinellu pryd fydd gwaith yn cael ei wneud yn eich ardal chi. Yn dilyn ymgynghoriad, mae llawer o dai anhaddodiadol bellach wedi eu cynnwys yn y brif amserlen. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gwelliannau mewnol yn unig fydd y cartrefi hyn yn gael ac nid rhai allanol. Bydd rhai ohonoch sy'n byw mewn tai anhaddodiadol o fath arbennig gyda gwaith strwythurol mawr i'w wneud, wedi derbyn llythyr yn gadael i chi wybod eich bod chi yn rhan o amserlen arall. Mae'r amserlen hon hefyd wedi ei chynnwys gyda'r newyddlen hon.

Swyddi a hyfforddiant

Gyda ffigyrau diweithdra ymysg pobl ifanc yng ngogledd Cymru yn uwch nag erioed ac ymysg yr uchaf ym Mhrydain, mae CCG yn herio'r drefn trwy greu cyfleoedd gwaith gyda lansio menter newydd sbon Recriwtio a Hyfforddiant.

Prif nod y fenter yw cael y budd mwyaf o'n rhaglen welliannau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a sicrhau gwaith a chyfleoedd hyfforddiant lleol.



Rhai o'r prentisiaid SATC

Er mwyn cynyddu sgiliau yn y sir, mae pob un o'n contractwr wedi ymrwymo i gyflogi prentisiaid. Hyd yma, mae 30 wedi eu cyflogi i weithio yn uniongyrchol ar y rhaglen fuddsoddi gyda rhan helaeth o'r rheiny o dan 25 oed.

Meddai Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG:

"Rydym yn gweithio yn

agos iawn gyda'n contractwyr a darparwyr hyfforddiant lleol i sicrhau bod prentisiaid yn cael eu cyflogi a'u hyfforddi. Gyda CCG yn buddsoddi cymaint mae'n bwysig ein bod ni nid yn unig yn gwella cartrefi ond ein bod hefyd yn gwella sgiliau lleol ac yn sicrhau gwaith yng Ngwynedd ar adeg pan mae wir angen."

Swyddog Cyswllt Tenantiaid

Mae Sophie Watts (*ar y clawr a dde*), yn byw ym Mangor ac yn gweithio fel Swyddog Cyswllt Tenantiaid neu TLO i Nationwide



Windows sy'n gosod ffenestri a drysau newydd yng nghartrefi CCG.

Yn gweithio yn ffatri Nationwide yn Llandygai, dechreuodd Sophie ei phrentisiaeth fis Gorffennaf, 2010. Fel TLO mae ei gwaith yn golygu cwrdd â thenantiaid er mwyn eu helpu nhw drwy'r broses o dderbyn ffenestri a drysau newydd yn ogystal â bod y pwynt cyswllt cyntaf ar ran y cwmni.

"Ma' ngwaith i fel TLO yn golygu mod i yng nghanol popeth sy'n mynd ymlaen, dwi allan yn cwrdd â phobl a dwi wrth fy modd nad ydw i yn styc mewn swyddfa. Does yna byth ddau ddiwrnod yr un fath. Dwi'n mwynhau gweld y broses i gyd yn datblygu - o'r dechrau i'r diwedd - a chael gweld pa mor hapus ydi'r tenantiaid gyda'r gwaith 'da ni'n ei wneud a'r ffordd mae'n gallu newid bywydau pobl.

"Dwi'n gweithio fel rhan o dîm sydd i gyd yn gweithio tuag at yr un nod - sef sicrhau fod tenantiaid i gyd gant y cant yn hapus â'r gwaith. Dwi wrth fy modd yn gweithio i Nationwide gan eu bod nhw'n fy annog i i gyflawni fy rôl o fewn y tîm. Yn ystod fy mhrentisiaeth, ma nhw'n fy nghefnogi i yn fy ngwaith ac wedi rhoi'r cyfle i mi gael cymwysterau, profiad gwaith da yn ogystal â dealltwriaeth well o fy rôl gyda'r gymuned. Wedi i mi orffen fy mhrentisiaeth, dwi eisiau aros gyda Nationwide. Mi faswn i'n hoffi cael cymhwyster uwch a thrwy ennill mwy o brofiad, gallu derbyn swydd gyda mwy o gyfrifoldebau."

GOFAL DROS Y GAEAF

Gofalu am eich cartref...

Gall y tywydd oer effeithio ar eich cartref. Mae'r problemau mwyaf cyffredin yn cynnwys colli cyflenwad dŵr, colli gwres neu dŵr ddim yn dianc allan o doiledau ac unedau sinc. Y prif reswm am hyn fel arfer ydi peipiau wedi rhewi. Dyma ychydig o gyngor ar beth i'w wneud os yw eich peipiau yn rhewi.

Gallwch eu dadmer gyda:

- Potel dŵr poeth
- Pecyn microdon cynnes (tebyg i'r rhai ar gyfer anafiadau)
- Cadachau wedi socian mewn dŵr cynnes
- Tywallt dŵr cynnes drostynt

Peidiwch â defnyddio dŵr berwedig

– gall hyn achosi peipen i fyrstio

Peidiwch â cheisio dadmer peipen os na allwch ei chyrraedd o'r ddaear

Byddwch yn ofalus – gall dŵr rewi yn gyflym ar lwybrau a bod yn beryglus

Gofalu am eich hun...

1. Pigiad y fflw

Gall eich meddyg teulu roi pigiad fflw i chi os ydych dros 65, os oes gennych gyflwr iechyd hir-dymor neu os ydych yn brif ofalwr i berson hŷn neu anabl.

2. Bwyta'n iach

Mae bwyd yn eich helpu i gadw'n iach a chynnes. Ceisiwch wneud yn siŵr eich bod yn bwyta prydau poeth ac yn yfed yn rheolaidd trwy gydol y dydd.

3. Osgoi llithro a baglu

Gwnewch yn siŵr bod carpedi wedi eu gosod yn iawn yn eich cartref a chwiliwch am unrhyw beth arall o gwmpas y tŷ all wneud i chi lithro. Mae symud o gwmpas a chadw'n heini yn help i gadw'n gynnes ac iach, felly edrychwch i weld beth sy'n mynd ymlaen yn eich canolfan hamdden neu gymunedol leol.

4. Gwresogi

Cynheswch eich cartref i'r tymheredd cywir a gwisgwch i gadw'n gynnes.

Os yw hi yn oer iawn gosodwch eich gwres i ddod ymlaen yng nghynt a diffodd yn hwyrach yn hytrach na throï'r thermostat i fyny. Gwisgwch sawl haenen denau o ddillad yn hytrach nag un drwchus. Os ydych yn poeni am y gost o wresogi eich cartref ffoniwch Energy Saving Trust ar 0800 512 012 o'r ffôn tŷ neu 0300 456 2655 o ffôn symudol.

COFIWCH...

Efallai eich bod yn gymwys i gael taliadau tanwydd gaeaf ar gyfer 2011/12 os cawsoch eich geni ar, neu cyn y 5 Ionawr 1951. Gall y taliad yma fod rhwng £100 a £300 gan ddibynnu ar eich amgylchiadau. Er mwyn darganfod os ydych yn gymwys i dderbyn taliad a sut i wneud cais ffoniwch linell gymorth taliadau tanwydd gaeaf ar 0845 915 15 15.

Cyddwysiad

Mae problem cyddwysiad yn waeth yn ystod y gaeaf.

Beth yw cyddwysiad?

Lleithder yw cyddwysiad neu condensation, sy'n troi yn ôl i ddŵr pan mae'n dod i gysylltiad ag arwynebedd oer fel ffenestr neu ddrych. Mae'n gallu achosi llwydni sy'n gallu gwneud niwed i'ch eiddo.



Dyma gyngor ar sut i'w osgoi:

- rhoi caead ar sosbenni wrth goginio
- peidio â gadael i sosban neu degell ferwi gormod
- agor y ffenestr wrth gael bath neu gawod
- sychu dillad y tu allan os yn bosib
- sicrhau bod fent i'r tu allan ar gyfer eich sychwr dillad
- agorwch ffenestri yn eich cartref pob hyn a hyn

Os ydych yn cael trafferth gyda chyddwysiad ffoniwch ni ar ein llinell trwsio 0300 123 8082.

Tenant newydd i'r Bwrdd



Enillodd Claire Russell Griffiths (dde) yr etholiad diweddar ar gyfer aelod tenant o'r Bwrdd. Fe bleidleisiodd dros 1,600 o denantiaid - y nifer uchaf erioed.

Ar ennill dywedodd Claire: "Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth bleidleisio, braf gweld cymaint yn cymryd diddordeb. Rwy'n falch o'r cyfle i gynrychioli pobl ifanc ac ardal o Wynedd sydd heb gael aelod o'r Bwrdd o'r blaen. Rwy'n edrych ymlaen at gael gwneud gwahaniaeth i denantiaid CCG."

Newidiadau i'ch budd-dal

... ydych chi'n barod?

Dan y Mesur Diwygio Lles, sy'n mynd drwy'r Senedd yn Llundain ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn cynnig dileu hawl tenantiaid i gael eu budd-dal tai wedi'i dalu'n uniongyrchol i'w landlord. Byddai hyn yn cael gwared ar un o'r ffyrdd mwyaf cyfleus i denantiaid dalu eu rhent a gallai arwain at gynnydd mewn dyledion personol.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig cyflwyno cap ar gyfanswm y budd-daliadau y gall pobl eu hawlio. Bydd teuluoedd ymysg y rhai fydd yn dioddef waethaf gan nad yw'r cap yn rhoi ystyriaeth i'r amrywiaeth enfawr mewn costau tai ar draws y wlad. Mae disgwyl i'r polisiâu gael eu cyflwyno yn Ebrill 2013.

Os ydych yn poeni am y newidiadau hyn cysylltwch â ni ar 0300 123 8084 neu Shelter Cymru ar 0845 075 5005 neu ewch i www.sheltercymru.org.uk

Clirio i greu coelcerth

Daeth trigolion Talysarn at ei gilydd i drefnu noson tân gwyllt arbennig yn y pentref fis Tachwedd diwethaf.

Cynhaliwyd y noson ar ddiwedd diwrnod prysur i'r trigolion lleol fu'n clirio eu cartrefi er mwyn creu'r goelcerth. Daeth y syniad o gael y gymuned i greu coelcerth wedi i nifer o dannau gael eu cynnau yn fwriadol, ac achosion o waredu sbwriel yn anghyfreithiol yn yr ardal ger stad Bro Silyn yn Nhalysarn.

I geisio taelo'r ddwy broblem daeth criw o wirfoddolwyr lleol ynghyd gyda chymorth CCG a Chymunedau'n Gyntaf Talysarn a Nantlle, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, cwmni Discount Tyres o Gaernarfon a chwmni Apollo, un o gontractwyr CCG.

Roedd trigolion lleol yn cael eu hannog i glirio eu cartrefi, gerddi a siediau gan ddod ag unrhyw eitemau nad oeddent eu hangen i safle'r goelcerth yng nghae chwarae Bro Silyn. Cyfranodd Apollo arian tuag at brynu tân gwyllt ar gyfer yr achlysur.

Meddai Glenys Lloyd o Gymunedau'n Gyntaf Talysarn a Nantlle: "Mae digwyddiadau fel hyn yn rhoi'r cyfle i bobl a sefydliadau lleol i gydweithio er lles y gymuned i gyd. Gobeithio y bydd noson tân gwyllt Talysarn yn dod yn rhywbeth blynyddol y gall pawb ei fwynhau."



Dafydd Roberts, CCG gyda staff Discount Tyres

Cynhadledd Flynyddol TPAS Cymru 2011

Fe aeth nifer o aelodau o Bartneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr CCG gyda Swyddogion o'r Tîm Cyswllt Cymunedol i gynhadledd flynyddol TPAS Cymru, fis Tachwedd yn Llandrindod.

Thema'r gynhadledd eleni oedd 'Cyfranogiad tenantiaid mewn cyfnod o doriadau'. Ymysg y siaradwyr gwadd oedd Huw Lewis AC, y Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth. Cynhaliwyd nifer o seminarau a gweithdai amrywiol yn ystod y gynhadledd yn ogystal â sesiwn 'Hawl i Holi' gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, CIH Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cynhadledd eleni hefyd oedd un olaf Margaret Bracegirdle o Trem yr Wyddfa, Penygroes fel Cadeirydd TPAS Cymru. Diolch i Margaret am ei gwaith dros denantiaid Gwynedd tra'n aelod o Fwrdd TPAS Cymru. Bydd yn parhau yn ei gwaith fel aelod o Fwrdd CCG ac fel ysgrifennydd Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr CCG.



Margaret Bracegirdle

Ymestyn ein gwasanaeth trwsio

O fis Chwefror eleni bydd CCG yn cynnig gwasanaeth trwsio i denantiaid rhwng 8:00 a 17:00 ar ddydd Llun a Mawrth ac o 8:00 tan 16:45 o ddydd Mercher i dydd Gwener.

Mae hyn yn newyddion da ac yn golygu y bydd ein gweithwyr trwsio ar gael am fwy o oriau i wneud gwaith cynnal a chadw ar eich cartrefi. I wneud cais am waith trwsio ffoniwch 0300 123 8082. Dyma hefyd rhif allan o oriau CCG.



Datganiad Preifatrwydd CCG

Mae CCG wedi ymrwymo i gadw a diogelu preifatrwydd tenantiaid ac wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae ein datganiad preifatrwydd yn egluro pam a phryd y byddwn yn casglu eich gwybodaeth bersonol a sut yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth yma.

Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau, er enghraifft pan fyddwch yn gwneud cais am dŷ neu pan fyddwch yn dod yn denant. Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth pan fyddwch chi'n cwblhau holiaduron cwsmer gwirfoddol, darparu adborth a chymryd rhan mewn cystadlaethau.

Ni fyddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch chi'n ei roi i ni heb eich caniatâd, oni bai bod gorfodaeth gyfreithiol arnom i wneud hynny.

Mynediad at wybodaeth a chywiro

Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi. Os hoffech gopi cysylltwch gyda'n swyddog diogelu data ar:

[ymholiadau@ccgwynedd.org.uk](mailto:yholiadau@ccgwynedd.org.uk)

neu ysgrifennwch atom yn:

Cartrefi Cymunedol Gwynedd,
Uned 6 a 7,
Llys Castan,
Parc Menai,
Bangor,
LL57 4FH

Rydym eisiau sicrhau bod y wybodaeth bersonol yn gywir ac wedi ei ddiweddarau. Gallwch ofyn i ni gywiro neu ddileu gwybodaeth os ydych yn credu ei fod yn anghywir.

Mae gennym hawl cyfreithlon i godi ffi o £10 i gwrdd â'n costau wrth ddarparu manylion o'r wybodaeth yr ydym yn ei gadw amdanoch chi.

Os hoffech gopi o'n Datganiad Preifatrwydd cysylltwch â ni ar 0300 123 8084 a gofynnwch am ein swyddog diogelu data.

Tudalen y Plant

**Croeso i dudalen yn
arbennig i'n tenantiaid iau!**

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau mawr i Elan Haf (7 oed) ac Anna Grisial (5 oed) y ddwy o Gricieth ar ennill ein cystadleuaeth cardiau Nadolig. Dyma ddarluniau'r ddwy.



**Chwilair
Llysiâu...**

**MORON
PYS
TATWS
PANNAS
CENNIN
BRESYCH
RWDAN**

B	T	W	P	P	C	F	B
A	P	Y	S	S	A	G	R
M	C	B	P	Y	R	H	E
O	C	T	A	T	W	S	S
R	T	W	N	H	D	H	Y
O	A	M	N	G	A	C	C
N	F	F	A	M	N	B	H
C	E	N	S	I	N	Y	A
H	E	C	E	N	N	I	N

Bisgedi bach!

**175g menyng / 50g siwgr castor / 50g siwgr eisin / 2 melynwy
2 llwy de fanila / 300g blawd plaen / sudd 1 oren
140g siwgr eisin / sprincls i addurno**

Rhowch y popty ar 200°C/180°C ffan/nwy 6. Cymysgwch y menyng, siwgr, melynwy a'r fanila gyda llwy bren nes ei fod yn hufennog, ychwanegwch y blawd yn raddol. Rholiwch y toes allan i wneud tua 22 pelen fechan a'u rhoi ar dun coginio. Pobwch am ryw 15 munud, gadewch iddynt oeri. Cofiwch gael help gan oedolyn wrth ddefnyddio'r popty.

Yn y cyfamser cymysgwch y siwgr eisin gyda digon o sudd oren i wneud eisin trwchus. Dipiwch bob bisged yn yr eisin ac yna yn syth i mewn i'r sprincls. Sychwch ar rac weiren.



Llais Tenantiaid

Dyma dudalen yn arbennig ar gyfer eich erthyglau chi, felly cofiwch anfon eich straeon a'ch lluniau at cyfathrebu@ccgwynedd.org.uk

Ein gwaith gwella (Mi allwn i wneud efo nhw hefyd – dwi'n 57!)

Helo gymdogion a chymuned! Mae George (hefyd yn 57!) a finnau ar ddiwrnod chwech y gwaith gwella ar ein cartref yn yr hyfryd Ddyffryn Nantlle.

Mae pethau mor wahanol i beth roeddwn i wedi ei ddisgwyl! Cyn y diwrnod cyntaf, roeddwn i yn mynd o gwmpas y lle gyda gwên fawr ar fy wyneb ond gydag un llaw tu ôl i fy nghefn wedi croesi fy mysedd gan obeithio bod Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn gwybod beth oeddynt yn ei wneud.

Chwe diwrnod i mewn i'r gwaith, dwi'n cerdded o gwmpas gyda gwên naturiol ar fy wyneb! Soniodd rai pobl bod angen i ni fynd i fyw mewn gwely a brecwast am 15 diwrnod, ond dwi mor falch ein bod ni wedi aros. Rwyf wedi cael y pleser o weld llawr pren yr ystafell ymolchi am y tro cyntaf erioed ac yna gweld y llawr yn cael ei adeiladu mewn haenau a'r swigod yn y finyl yn gorwedd wrth iddynt ddefnyddio chwythwr gwynt poeth. Mae gweld hyn, a llawer mwy, gyda'm llygaid fy hun wedi bod yn amhriadiwy: pa ffordd arall y byswn i wedi cael gweld hyn?

Fy argraff gyffredinol i o'r gwaith yw ei fod wedi ei gydlynun wych a theimlad o ewyllys da rhwng y timau gwahanol, bod hynny yn dimau CCG neu'n dimau'r contractwyr. Mae hyn wedi golygu ein bod ni wedi teimlo'n gyfforddus yn ein cartref yn ystod yr holl waith. Ar ôl i'r hen finyl gael

ei dynnu o'r ystafell ymolchi, roedd y llawr yn stici gan fod yr hen lud ar y llawr ac roedden ni fel pryfaid yn sownd ar bapur pryfaid yno. Dywedais wrth y trydanwr am hyn ac erbyn diwedd y diwrnod gwaith daeth tîm gwahanol draw gyda gorchudd llawr plastig i roi drosto. Bob nos rydym yn mynd i'r gwely yn hapus iawn gyda hyn a phopeth arall y maen nhw yn ei wneud.

Beth yw'r peth gorau am y 6 diwrnod diwethaf? Diwedd diwrnod un yn bendant. Dyma'r diwrnod pan ddaeth tîm "dymchwel" Cartrefi Cymunedol Gwynedd i'r tŷ. Clywais y gair yna gan Arwyn o CCG pan atebodd alwad i ddod i'n gweld ychydig o ddiwrnodau wedyn ac roeddwn mor falch na glywais i'r gair yna cyn y diwrnod cyntaf neu mi fyddwn i wedi dychryn! Dod i dynnu'r gosodiadau fel cypyrddau'r gegin a'r ystafell ymolchi oedd y tîm "dymchwel" fel bod y waliau i'w gweld ar gyfer y trydanwyr ac ati. Ni chawsom broblem cael gwared â'r unedau, a deud y gwir, dydw i ddim wedi eu gweld ers iddynt gael eu tynnu i lawr, mae'n rhaid eu bod nhw wedi eu rhoi yn y fan yn ystod y broses.

Ar ddiwedd y diwrnod, roedd yna sŵn gwag mawr yn y gegin a'r ystafell ymolchi ac roeddwn ar dân eisiau canu! Dyna pam mai hwn oedd y diwrnod gorau un o'r chwe diwrnod. Rwyf i'n hoff iawn o Feng Shui, i mi mae tŷ yn fyw ac mae'r waliau wrth eu boddau yn clywed sŵn canu. Roeddwn i a'm tŷ yn ofnadwy o hapus y noson honno!!



George Lockett yn ei gegin newydd

Rhoddodd Arwyn gysur i ni a sylwais nad oedd y 15 diwrnod wedi eu llenwi gyda gwaith "mawr"... mae'r rhan fwyaf o'r pethau yn "digwydd" yn ystod yr wythnos gyntaf. Roeddwn wedi fy synnu ac yn falch bod Arwyn wedi siarad efo ni am gyhyd ac yn rhoi digon o fanylion i ni, rhoddodd inni'r amser yr oedden ni ei angen heb unwaith edrych ar ei wats. Gwnaeth i ni deimlo fel pobl bwysig iawn.

Mae'n hanner awr wedi dau ar brynhawn dydd Gwener, heddiw mae'r plymiwr fod i osod ein bath newydd a dwi'n gwybod heb amau y bydd yn dod yma gan fy mod i bellach wedi dysgu i ymddiried yn y gweithwyr. Mae ymddiried yn rhywun yn werth ffortiwn, felly dwi'n meddwl fy mod i'n ffodus iawn.

Dwi'n gobeithio y bydd eich profiad chi o'r gwaith gwella'r un mor bleserus â fy un i!!

DEBORAH LOCKETT
Glan Rhonwy